



POLISI CORONAFIRWS (COVID-19) **Cylch Meithrin Y Felinheli**

Mae Cylch Meithrin Y Felinheli yn cydnabod pwysigrwydd rhag-gynllunio er mwyn cynnal gwasanaethau a chyfyngu lledaeniad y coronafirws newydd (COVID-19) o fewn ein lleoliad.

Daw rhywfaint o'r wybodaeth ddilynol yn uniongyrchol o'r ddogfen Coronafirws (COVID-19): canllawiau lleoliadau addysgol diweddaraf (11/02/2020) a gellir canfod y ddogfen gyflawn [yma](#).

Byddem yn edrych ar y ddolen isod yn ddyddiol, ac rydym yn eich annog chi i wneud yr un peth. Os a phryd ddiweddarwyd y canllaw, byddem ni hefyd yn diwygio'r polisi a'n hymatebion i unrhyw sefyllfa sy'n ymdrin â COVID-19. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn rhyddhau datganiadau'n ddyddiol, am 11 y bore. [Cliciwch yma](#) i'w weld.

Gwybodaeth am y firws

Math o firws yw coronafirws. Fel grŵp, mae coronafirwsau yn gyffredin ar draws y byd. Math newydd o goronafirws yw COVID-19, a chafodd ei ddarganfod yn gyntaf yn Ninas Wuhan, Tsieina, ym mis Rhagfyr 2019. Mae cyfnod magu COVID-19 rhwng 2 ac 14 diwrnod. Felly, os bydd unigolyn yn dal i fod yn holliach 14 diwrnod ar ôl dod i gysylltiad â rhywun y cadarnhawyd ei fod yn dioddef o goronafirws, mae'n annhebygol ei fod wedi cael ei heintio.

Efallai y bydd y symptomau canlynol yn datblygu yn ystod yr 14 diwrnod ar ôl dod i gysylltiad â rhywun sy'n dioddef o'r haint COVID-19:

- peswch
- anhawster anadlu
- twymyn

At ei gilydd, gall yr heintiau hyn arwain at symptomau mwy difrifol ymhlith pobl â systemau imiwnedd gwan, pobl hŷn, a phobl â chyflyrau hirdymor fel diabetes, canser a chlefyd cronig yr ysgyfaint. Ni cheir unrhyw dystiolaeth fod yr haint yn 2 effeithio mwy ar blant nag ar grwpiau oedran eraill – ychydig iawn o achosion sydd wedi cael eu cofnodi ymhlith plant.

Sut caiff COVID-19 ei ledaenu

Ar sail yr hyn a wyddom am goronafirwsau eraill, mae'n fwyaf tebygol y bydd COVID-19 yn cael ei ledaenu trwy ddod i gysylltiad agos (o fewn 2 fetr) ag unigolyn sydd wedi'i heintio.

Yn ôl pob tebyg, bydd y risg yn cynyddu po hiraf y bydd rhywun mewn cysylltiad agos ag unigolyn sydd wedi'i heintio. Y dull mwyaf tebygol o drosglwyddo'r firws yw trwy ddefnyddio a gynhyrchir pan fydd unigolyn heintiedig yn pesychu neu'n tisian (gelwir y rhain yn secretiadau anadlol) - gyda'r firws wedi'i gynnwys yn y defnydd hyn.

Gall pobl gael eu heintio mewn dwy ffordd:

- gellir trosglwyddo secretiadau'n uniongyrchol i gegau neu drwynau pobl sydd gerllaw (o fewn 2 fetr) neu gellir eu hanadlu i'r ysgyfaint
- mae hefyd yn bosibl i rywun gael ei heintio trwy gyffwrdd arwyneb neu wrthrych sydd wedi cael ei heintio â secretiadau anadlol ac yna cyffwrdd y geg, y trwyn neu'r llygaid (fel gafael mewn dolen drws neu ysgwyd llaw, ac yna cyffwrdd yr wyneb)



Atal yr haint rhag lledaenu

Ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw frechlyn i atal COVID-19. Y ffordd orau o atal yr haint yw peidio â dod i gysylltiad â'r firws. Mae yna egwyddorion cyffredinol byddwn yn eu dilyn er mwyn atal firysau anadlol rhag lledaenu, yn cynnwys:

- golchi dwylo'r plant a staff yn aml gyda dŵr a sebon
- gorchuddio peswch neu disian gyda hances bapur, gan daflu'r hances bapur i'r bin wedyn.
- gofynnwn i blant, staff ac ymwelwyr golchi eu dwylo:
 - cyn gadael eu cartref
 - ar ôl cyrraedd Cylch Meithrin Y Felinheli
 - ar ôl defnyddio'r toiled o ar ôl egwyl a gweithgareddau chwaraeon
 - cyn paratoi bwyd o cyn bwyta unrhyw fwyd, yn cynnwys byrbrydau
 - cyn gadael
- byddwn yn defnyddio hylif dwylo ag alcohol ynddo, sy'n cynnwys o leiaf 60% o alcohol, os, am ryw reswm, nad oes dŵr a sebon ar gael
- osgoi cyffwrdd â'n llygaid, ein trwyn a'n ceg â dwylo heb eu golchi/glanhau a diheintio gwrthrychau ac arwynebau a gaiff eu cyffwrdd yn aml
- os ydym yn bryderus ynghylch symptomau plentyn neu gydweithiwr, byddwn yn defnyddio'r gwiriwr symptomau coronafirws COVID-19 ar [Galw Iechyd Cymru](#)
- Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn Cylch Meithrin Y Felinheli byddem yn hyrwyddo rheoli heintiau trwy'r dulliau uchod ac yn ychwanegol byddwn yn:

- Sicrhau bod cyflenwad digonol o ddeunyddiau glanhau ar gael o fewn y lleoliad
- Gwaredu deunyddiau gwastraff mewn modd prydlon a hylan
- Darparu hancesi bapur a chyfleusterau priodol i'w gwaredu

Yr hyn a wnawn os ymddengys bod plentyn neu aelod o staff yn dioddef o'r salwch

Plant

Os credwch eich bod chi, eich plentyn neu aelod agos o'ch teulu wedi dod i gysylltiad â COVID-19 gofynnwn i chi beidio dod â'r plentyn i'r lleoliad.

Yn yr un modd, os ydych chi, eich plentyn neu aelod agos o'ch teulu yn dioddef o symptomau all fod yn rhai COVID-19, peidiwch dod â'r plentyn i'r lleoliad.

Bydd unrhyw blentyn sy'n dangos symptomau a ellir fod yn symptomau COVID-19 tra yn y lleoliad yn cael ei ynysu rhag y lleill, gan gadw o leiaf 2 fetr rhyngddo a'r plant eraill, nes bod ei rieni yn medru ei godi o'r lleoliad. Byddwn hefyd yn 999 mewn argyfwng (os yw'r plentyn yn wael iawn, wedi dioddef anaf neu mewn peryg o golli bywyd).

Staff

Byddem yn cyfarwyddo staff i aros gartref os ydynt yn dangos unrhyw symptomau perthnasol cyn cyrraedd y gwaith. Cynghorir pobl sy'n wael i beidio â mynd at eu meddyg teuluol, fferyllfa, canolfan gofal brys na'u hysbytu lleol. Os yw aelod o staff yn mynd yn sâl tra yn y gwaith, os yn bosib, byddem yn canfod ystafell neu ardal lle gallent ynysu eu hunain tu ôl i ddrws caeedig er enghraifft, swyddfa neu ystafell gyfarfod. Os yw'n bosib agor ffenest i wyntyllu'r ystafell, byddem yn gwneud felly. Os oes angen iddynt ddefnyddio'r tŷ bach wrth ddisgwyl am gymorth meddygol, bydd angen iddynt ddefnyddio un ar wahân, os oes un ar gael.



Ar ôl iddynt adael, bydd yr holl arwynebau y mae'r plentyn / aelod o staff wedi dod i gysylltiad â nhw yn cael eu glanhau gan ddefnyddio cadachau tafladwy a glanedyddion cartref, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r arfer gweithle a argymhellir ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cynnwys:

- pob arwyneb a gwrthrych sydd wedi eu halogi'n weladwy gan hylifau'r corff
- pob arwyneb cyswllt-uchel sydd o bosib wedi eu halogi, e.e. toiledau, handlenni drws, teleffonau.
- Nid oes angen glanhau na diheintio ardaloedd cyhoeddus mae'r unigolyn a'r symptomau wedi symud trwyddynt a threulio ychydig o amser ynddynt (e.e. coridorau), yn enwedig os nad oes arwyddion bod hylifau'r corff wedi halogi'r ardaloedd dan sylw.

Yn y ddwy achos bydd y lleoliad yn parhau'n agored (os yw staffio yn caniatáu), ond rhoddir gwybod i rieni a staff.

Cau

Y cyngor cyfredol yw dydy cau lleoliadau unigol ddim o fudd mawr wrth geisio atal lledaeniad yr haint. Fodd bynnag, efallai bydd yna achlysuron lle bydd yn rhaid i ni ystyried cau'r lleoliad dros dro am fod gennym ni staff annigonol i redeg y lleoliad yn ddiogel. Os yw hwn yn digwydd byddem yn cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru neu Iechyd Cyhoeddus Cymru am ragor o gefnogaeth ac arweiniad.

Os cynghorir y lleoliad i gau gan Lywodraeth Cymru neu'r Awdurdod Lleol, byddem yn cydymffurfio a'r gorchymyn er lles a diogelwch y plant dan ein gofal.

Talu Ffioedd

Yn yr achos bod symptomau Coronafirws (COVID-19) yn golygu does dim angen gofal plant arnoch, bydd ffioedd yn daladwy'n unol â'n Polisi Ffioedd/Llawlyfr Rhieni.

Os oes rhaid i ni gau o ganlyniad i gyfarwyddiadau gan yr awdurdod lleol, ac mae'r sefyllfa y tu hwnt i'n rheolaeth, byddwn yn adolygu ein polisi.

Os oes angen i ni gau'n drysau byddem yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr cyn gynted â phosib. Byddem hefyd yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru, ynghyd â phartïon perthnasol eraill, h.y. ysgolion lleol, defnyddwyr arall yr adeilad, ac ati.

Rhag-gynllunio

I baratoi at bandemig o'r afiechyd, bydd y lleoliad yn sicrhau bod holl fanylion cyswllt staff, plant a rhieni yn gyfredol.

Byddem yn paratoi llythyrau hysbysu i rieni a staff, er mwyn eu dosbarthu ar unwaith os oes salwch o fewn y lleoliad.

Bydd y lleoliad yn diweddar ei wybodaeth ynglŷn ag afiechydon pandemig yn rheolaidd, trwy wirio'r arweiniad mwyaf cyfredol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin; a byddem yn hysbysu rhieni a staff o unrhyw newidiadau i'n cynlluniau argyfwng.